

---

**GOFYNION POLISI COLEGAUCYMRU AR  
GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU**

**THEMA 1: EHANGU HAWL AC YMGYSYLLTIAD  
DINASYDDION AGA ADDYSG**

---

Mawrth 2021

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ehangu ar Thema 1 *Llywyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru* ColegauCymru. Ynghyd â'n hadroddiad *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno gweledigaeth a gweithredu ymarferol ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.<sup>1</sup>

## Crynodeb

Mae ColegauCymru yn amlygu'r angen i ehangu ymgysylltiad dinasyddion ag addysg trwy newid y sylfaen statudol ar gyfer addysg ôl-16 a thrwy ddarparu hawl digidol i ddysgu.

Gyda hyn mewn golwg, dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Newid sylfaen statudol addysg i ganiatáu hawl wedi ei ariannu i gael mynediad at gymhwyster Lefel 3 cyntaf yn Gymraeg neu Saesneg hyd at ac yn cynnwys pawb hyd at 25 oed, yn y lle cyntaf, gydag ymrwymiad i ymestyn yr hawl hwn i bob oedolyn. Fel rhan o hyn, codi oed ymgysylltiad gorfodol ag addysg neu hyfforddiant i 18, yn cynnwys y mynediad angenrheidiol at gyngor ac arweiniad annibynnol i bob dysgwr.
- Datblygu'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a'r effaith o ganlyniad ar lwybrau dysgu 14-19 i roi sylfaen gyfreithiol i ddysgwyr 14-16 oed wneud cynnydd i lwybrau galwedigaethol a thechnegol a ddarperir yn annibynnol trwy Sefydliadau Addysg Bellach (SABau), a'r cyllid angenrheidiol i gefnogi'r dysgwyr hyn. Dylai cyflwyno cymwysterau addysg cyffredinol galwedigaethol gael ei gadw ar gyfer ysgolion a cholegau sydd wedi eu dynodi'n benodol fel canolfannau ar gyfer dysgu technegol a galwedigaethol cychwynnol.
- Cyflwyno 'hawl digidol' i bob dysgwr – dylai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ymrwymo i ddarparu dyfeisiadau digidol i bob dysgwr a defnyddio pob dull sydd ar gael o wella mynediad at y rhyngwrwd cyflym ym mhob rhan o Gymru. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid ystyried darparu gofod priodol i ddysgwyr astudio hefyd.
- Ymrwymo i gyllideb tair blynedd ar gyfer addysg bellach a'i chyflwyno.

---

<sup>1</sup> John Buchanan et al., *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, ColegauCymru, 2021, ar gael yn: <https://www.colleges.wales/image/publications/reports/Enabling%20Renewal%20-%20FE/Enabling%20Renewal%20-%20FE.pdf>

## Newid oed a sylfaen statudol addysg

### Cymhwyster Level 3 ar gyfer pob dinesydd

Mae cael cymhwyster Lefel 3 (cymhwyster cyffredinol cyfwerth â Safon Uwch), yn hytrach na chymhwyster Lefel 2 yn cael effaith gadarnhaol ar enillion. Mae ymchwil yn dangos bod dinasyddion rhwng 16-24 oed â chymhwyster Lefel 3 yn ennill mwy o'u cymharu â'r rheiny â chymhwyster Lefel 2. Mae dynion â chymhwyster Lefel 3 yn ennill 15% yn fwy, ac mae menywod yn ennill 9% yn fwy erbyn eu bod yn 26 oed.<sup>2</sup> Mae'r bwlch hwn mewn tâl yn fwy dwys o'i gymharu â'r rheiny heb unrhyw gymwysterau. Yn yr un modd, mae addysg yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd – po fwyaf o addysg a sgiliau sydd gan berson, maent yn fwy tebygol o nodi iechyd gwell hyd yn oed o'u cymharu ag unigolion â nodweddion cefndir tebyg.<sup>3</sup>

### Newid oed statudol addysg neu hyfforddiant i 18

Mae Deddf Addysg 1996 yn datgan '*...y bydd rhiant pob plentyn o oed ysgol gorfodol yn achosi iddo/iddi gael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas hyd at 16 oed*'. Ar ôl 16 oed, er bod dysgwyr yn cael eu hannog i barhau gydag addysg neu hyfforddiant, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar bobl ifanc i barhau gyda chynnig addysgol.<sup>4</sup>

Wrth i fwy o bobl ifanc ddewis aros mewn addysg ar ôl 16 oed, mae Colegau Cymru yn eirioli cynyddu oed gorfodol ymgysylltu ag addysg i 18. Ar sail unigol, bydd hyn yn rhoi cyfleoedd gwell i ddsygwyr ddatblygu eu sgiliau a'u cyfleoedd hyfforddiant i wella rhagolygon gyrfa, ac yn cydnabod y dewisiadau sydd, yn ymarferol, eisoes yn cael eu gwneud gan y rhan fwyaf o bobl ifanc. Yn ogystal, mae'n cynyddu'r tebygolrwydd o gael hyfforddiant yn y gweithle yn y dyfodol, gan weithio mewn meysydd mwy medrus, ac felly'n cynyddu enillion gyrfa.<sup>5</sup> Yn ogystal, mae cynyddu oed addysg orfodol yn cael effaith gymdeithasol ehangach gadarnhaol. Mae unigolion sydd yn aros mewn addysg neu hyfforddiant hyd at 18 oed yn llai tebygol o fod yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn debygol o gael iechyd corfforol a meddyliol gwell na'r rheiny nad ydynt yn gwneud hynny.<sup>6</sup>

Mae'n rhaid i ffocws y newid deddfwriaethol fod ar sicrhau *ymgysylltu* ag addysg, a sicrhau y gall pob unigolyn ddod o hyd i'r addysg, y sgiliau, y brentisiaeth neu lwybr arall sydd yn addas iddyn nhw. Ar hyn o bryd, nid yw 7.8% o bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth na

---

<sup>2</sup> Adroddiad Panel Annibynnol, *Review of Post-18 Education and Funding* (Mai 2019), tud. 51, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/805127/Review\\_of\\_post\\_18\\_education\\_and\\_funding.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/805127/Review_of_post_18_education_and_funding.pdf).

<sup>3</sup> Gweler [How do our education and skills influence our health? | The Health Foundation](#)

<sup>4</sup> Deddfau Cyffredinol Cyhoeddus y DU, *Deddf Dysgu a Sgiliau* (2000), <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/section/32>.

<sup>5</sup> Yr Adran Addysg a Sgiliau, *Raising Expectations: Staying in education and training post-16* (2007), tud. 11, [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/325656/Cm\\_7065\\_-\\_Raising\\_Expectations.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/325656/Cm_7065_-_Raising_Expectations.pdf).

<sup>6</sup> Yr Adran Addysg a Sgiliau, *Raising Expectation : Staying in education and training post-16* (2007), tud. 13.

hyfforddiant, ffigur sydd ond wedi gostwng ychydig er 2004.<sup>7</sup> Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â hyn, a lleihau'r ffigur hwn ymhellach, ac mae cynyddu oed ymgysylltiad gorfodol ag addysg yn ateb ymarferol<sup>8</sup>.

### **Mynediad at gyngor annibynnol i bob dysgwr**

Mae'n rhaid i bob dysgwr allu cael mynediad at yrfa annibynnol, a chynghor am ddilyniant gyrfa, wrth ystyried eu dewisiadau ôl-16. Ni ellir gadael hyn hyd at Flwyddyn 11. Dylai dysgwyr cyn-16 gael cyngor annibynnol wedi ei deilwra sydd yn annog y canlyniadau gorau yn ddigon cynnar i alluogi hyn. Mae ymchwil yn dangos datgysylltiad rhwng dyheadau pobl ifanc 14-18 oed ar draws y DU o'i gymharu â'r mathau o swyddi sydd ar gael.<sup>9</sup> Dylid annog dysgwyr i fynd ar drywydd cymwysterau galwedigaethol neu academiaidd, yn dibynnu ar eu sgiliau a'u diddordebau. Dylai SABau fod yn flaenllaw yn y cynnig addysgol hwn.

Dylid dod â chystadleuaeth ddiangen i ben gyda'r ffocws ar yr hyn sydd er budd pob dysgwr unigol. Mae'n rhaid gwneud i ddarpariaeth, mewn statud, amlygu rôl SABau ynghyd â dosbarthiadau chweched ysgolion uwchradd fel amgylcheddau addysg rhagorol gyda lefelau addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

Dylid cario'r ffocws hwn ar gyngor annibynnol yn nes ymlaen mewn bywyd. Dylai dysgwyr sydd yn oedolion sydd eisiau cael sgiliau newydd ac uwchsgilio allu cael cyngor gyrfa annibynnol er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn ymwneud â rhagolygon gyrfa posibl. Mae menter bresennol 'Cymru'n Gweithio' ar hyn o bryd yn ceisio cyflawni'r swyddogaeth hon, yn gysylltiedig â Gyrfa Cymru.<sup>10</sup> Mae'n rhaid i ni sicrhau integreiddio gwasanaethau cynghori yn ddidrafferth ar gyfer dinasyddion o bob oed.

---

<sup>7</sup> Ystadegau ar gyfer Cymru, *Bwletin Ystadegol*, 'Pobl Ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) Hydref 2019 i Medi 2020, <https://gov.wales/young-people-not-education-employment-or-training-neet-october-2019-september-2020>.

<sup>8</sup> *Raising the Age of Participation to 18* (Chwefror 2021) <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Raising-the-Age-of-Participation-to-18.pdf>. Mae Colegau Cymru yn falch o weld ymgysylltu yn ymwneud â chynyddu oed statudol addysg yng Nghymru, a bydd yn dilyn unrhyw gynnydd yn ofalus.

<sup>9</sup> Gweler Nick Chambers, Chris Percy a Martin Rogers, *Disconnected: Career aspirations and jobs in the UK* (Education and Employers, 2020), <https://www.educationandemployers.org/disconnected/>

<sup>10</sup> <https://workingwales.gov.wales>

## Darparu sail gyfreithiol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed i wneud cynnydd i lwybrau galwedigaethol a thechnegol

Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddarparu sylfaen gyfreithiol gadarn i ddysgwyr 14-16 oed wneud cynnydd i lwybrau galwedigaethol a thechnegol a ddarperir gan SABau, os mai hyn yw'r opsiwn gorau a mwyaf priodol i ddysgwyr. Ynghyd â hyn, mae'n rhaid i'r cyllid angenrheidiol i gefnogi'r dysgwyr hyn fod ar gael yn barhaus. Yn ymarferol, mae darpariaeth eisoes ar gael i ddarparu dysgu galwedigaethol ar gyfer rhai pobl ifanc 14-16 oed. Fodd bynnag nid oes adnoddau cadarn na digonol ar gael ar gyfer hyn.

Mae'n rhaid i ddiogelu'r dysgwyr iau hyn barhau'n flaenoriaeth. Yn y lle cyntaf, Pennaeth coleg ddylai fod yn gyfrifol yn gyfreithiol am blentyn y mae eu lleoliad dysgu arferol yn SAB. Mae hyn yn helpu i ddiogelu addysg a llesiant y plentyn. Dylid cydnabod hyn mewn cyfraith fel darpariaeth sy'n benodol i Gymru.

### Prentisiaethau Iau

Wedi ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Creative Solutions, Coleg Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd ac ysgolion Caerdydd, cafodd y rhaglen Prentisiaethau Iau ei lansio ym mis Medi 2016. Tra'n astudio Prentisiaeth Iau, mae'n rhaid i'r dysgwyr ddilyn elfennau craidd o'r cwricwlwm cenedlaethol fel TGAU Mathemateg a Saesneg/Cymraeg tra'n datblygu sgiliau a chymwysterau diwydiant hefyd. Yn 2017, addawodd Llywodraeth Cymru gyllid o £800,000 i ddatblygu rhaglenni prentisiaeth iau<sup>11</sup>. Fodd bynnag, yn ogystal â'r grant hwn, ariennir y ddarpariaeth hon trwy ddyraniad ôl-16 presennol. Gan fod SABau yn gyfrifol am ddarparu prentisiaethau iau, dylai pot cyllid penodol 'ddilyn y dysgwr' yn hytrach na dilyn y sefydliad addysg er mwyn sicrhau bod y darparwr perthnasol yn gallu darparu adnoddau i gefnogi'r dysgwr.

Coleg Caerdydd a'r Fro oedd y cyntaf i gynnal peilot o'r rhaglen Prentisiaethau Iau yn 2016, gyda mwy o ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno ar draws nifer o golegau yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Mae manylion y rhaglen ac enghreifftiau o'r ffordd y mae wedi bod o fudd i ddysgwyr ifanc ar gael mewn fideo byr a grëwyd gan Goleg Caerdydd a'r Fro.<sup>12</sup>

---

<sup>11</sup> <https://gov.wales/written-statement-expansion-junior-apprenticeship-programme>

<sup>12</sup> [https://www.youtube.com/watch?v=ZkqWh1M1Q\\_g&feature=emb\\_logo](https://www.youtube.com/watch?v=ZkqWh1M1Q_g&feature=emb_logo)

## Cyflwyno Addysg Alwedigaethol

Nododd adroddiad 2018-2019 Estyn fod SABau yn perfformio'n dda wrth ymateb i anghenion sgiliau rhanbarthol a nodwyd eu bod yn bodloni ac yn mynd y tu hwnt i safonau addysgu a dysgu.<sup>13</sup> Yn ogystal, mae SABau yn darparu amgylcheddau dysgu unigryw ac o ansawdd uchel fel *Canolfan Ragoniaeth ar gyfer Hyfforddiant Rheilffordd* yng Ngholeg y Cymoedd. Oherwydd yr amgylcheddau dysgu safon uchel hyn, dylai SABau fod yn greiddiol i ddarparu cymwysterau galwedigaethol. Dylid addysgu pob cwrs galwedigaethol i'r safon uchaf, sydd yn gofyn am staff profiadol â chymwysterau priodol sydd yn gallu gwneud defnydd llawn o gyfleusterau ansawdd uchel. Am y rheswm hwn, dim ond ysgolion a cholegau sydd yn bodloni safonau uchel o'r fath ddylai allu cyflwyno cymwysterau galwedigaethol addysg gyffredinol. Dylai darpariaeth gael ei dynodi'n ganolfan addysg dechnegol a galwedigaethol gychwynol. Dylid cynnwys telerau dynodi ysgolion neu golegau fel canolfannau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynol mewn unrhyw ddiwygiad i addysg ôl-16 neu 16-25.

Yn ogystal, dylid osgoi cystadleuaeth ddiangen ar gyfer cyflwyno cymwysterau galwedigaethol. Dylid annog awdurdodau addysg i ffurfio partneriaethau dosbarthiadau chweched ysgolion a SABau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth alwedigaethol sydd ar gael yn rhoi'r cyfleoedd gorau i ddysgwyr ddatblygu a gwneud cynnydd o ran gyrfa.

---


<sup>13</sup> Estyn, 'Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru 2018-2019, [https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-07/Annual\\_Report\\_2018\\_2019\\_en\\_2.pdf](https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-07/Annual_Report_2018_2019_en_2.pdf), tud. 61.

## Hawl digidol

Yn 2010, nododd Llywodraeth Cymru ei strategaeth i *Gyflawni Cymru Ddigidol* erbyn 2020 lle byddai 'pawb yn gallu mwynhau buddion technoleg ddigidol'.<sup>14</sup> Fodd bynnag, mae argyfwng COVID-19 wedi dangos diffygion yn ymwneud â'r mater hwn mewn addysg bellach. Mae toriadau mewn termau real i gyllid addysg bellach wedi cyflwyno nifer o heriau.

Mae Ffigur 1.1 yn amlinellu'r toriadau mewn termau real i ddarpariaeth cyllid ers 2014/15 gan ddefnyddio cyfartaledd cyfansawdd o'r mesur Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Ffigur 1.1



Mae'r siart, nad yw'n cynnwys unrhyw gyllid ychwanegol mewn ymateb i'r pandemig, yn dangos unwaith mae chwyddiant wedi cael ei ystyried, er gwaetha'r ffaith fod dyraniadau yn ymddangos fel pe baent wedi cynyddu er 2014-15, eu bod mewn gwirionedd wedi gostwng mewn termau real. Yn ogystal, mae'r pandemig wedi dangos natur aml-wedd yr hyn y mae hawl digidol yng Nghymru'n ei olygu.

### Mynediad at gyfarpar

Un o'r materion mwyaf taer yn ymwneud â hawl digidol yw darparu mynediad at gyfarpar *digonol* ar gyfer dysgwyr ac ymarferwyr. Ym mis Gorffennaf 2020, darparwyd £3.2 miliwn gan Lywodraeth Cymru i brynu cyfarpar digidol ychwanegol ar gyfer myfyrwyr addysg bellach, dysgwyr dysgu seiliedig ar waith, a dysgwyr sydd yn oedolion<sup>15</sup>. Fodd bynnag, mae diffygion sylweddol o hyd o ran darparu

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, *Cyflawni Cymru Ddigidol: Fframwaith Amlinellol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gweithredu* (2010), <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/delivering-a-digital-wales.pdf>.

<sup>15</sup> <https://gov.wales/over-50-million-support-welsh-universities-colleges-and-students>

cyfarpar TGCh mewn SABau. Mae Colegau Cymru yn galw ar Lywoddraeth nesaf Cymru i sicrhau bod gan ddysgwyr i gyd fynediad at ddyfais ddigidol i'w galluogi i gymryd rhan mewn dysgu.

Yn ogystal, dylid personoli mynediad at gyfarpar yn unol ag anghenion y dysgwr yn hytrach na darparu gliniadur safonol i bob dysgwr. Os yw darparu cyfarpar yn cael ei reoli yn unol â phroffil dysgwr unigol, gellir mynd i'r afael â materion hygyrchedd pellach. Lle bo angen, dylid gosod meddalwedd fel meddalwedd adnabod llais a meddalwedd arddweud ar liniaduron i wella hygyrchedd ar gyfer dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) er enghraifft. Yn 2018/19, roedd 16,510 o ddysgwyr unigryw mewn SABau yn nodi bod ganddynt anhawster a/neu anabledydd dysgu, ac y byddai sawl un ohonynt wedi cael budd o ymagwedd o'r fath.<sup>16</sup>

Dylid annog dysgwyr i ystyried defnyddio gosodiadau Cymraeg wrth sefydlu dyfeisiadau os ydynt yn ddigon cymwys er mwyn hybu eu sgiliau ieithyddol. Byddai hyn yn ymestyn i ddefnyddio meddalwedd Cymraeg ar gyfer defnyddio gweithrediadau fel gwirio sillafu hefyd.

Yn ogystal, dylid digideiddio'r holl ddeunyddiau dysgu yn Gymraeg. Mae hyn yn gwella hygyrchedd, ac yn helpu SABau i fodloni Safonau'r Gymraeg. Er bod adnoddau'n cael eu cyhoeddi'n llai aml yn Gymraeg, dylid ystyried yr ehangu gofynnol yn sgîl COVID-19 mewn dysgu ar-lein/cyfunol fel cyfle i gydfrynhoi adnoddau a chyflwyno adnoddau llawer mwy cyfunol yn ddwyieithog.

## **Mynediad at fand eang**

Nid yw band eang yng Nghymru wedi ei ddatganoli gan mai Llywodraeth y DU sydd yn bennaf gyfrifol am bolisi, ond mae gan Lywodraeth Cymru bwerau eraill i weithredu.<sup>17</sup>

Cafodd cynllun Allwedd Band Eang Cymru ei lansio yn 2017 i gynnig grantiau i ariannu, neu ariannu'n rhannol, y costau o osod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru.<sup>18</sup> Amcangyfrifir bod gan 95.6% o breswylfeydd yng Nghymru fynediad at lefelau band eang cyflym iawn.<sup>19</sup> Mae hyn yn golygu bod tua 15,500 o gartrefi yng Nghymru heb 'fand eang digonol'.<sup>20</sup>

---

<sup>16</sup> <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-primarydisability-gender>

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, *Ynghylch Band Eang yng Nghymru*, <https://gov.wales/broadband-in-wales/about-broadband-in-wales>

<sup>18</sup> Think Broadband, *UK Broadband Coverage & Speedtest Result Maps*, <https://labs.thinkbroadband.com/local/index.php?tab=2&election=1#8/52.019/-2.112/con/nonsuperfast/>, [Defnyddiwyd 05/06/2020].

<sup>19</sup> Think Broadband, *UK Broadband Coverage & Speedtest Result Maps*, <https://labs.thinkbroadband.com/local/index.php?tab=2&election=1#8/52.019/-2.112/con/nonsuperfast/>, [Defnyddiwyd 05/06/2020].

<sup>20</sup> Ofcom, *Datgelu'r Ffigurau Diweddaraf Ynghylch y Ddarpariaeth Band Eang a Symudol yng Nghymru* (2019), <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/media/media-releases/2019/latest-broadband-and-mobile-coverage-figures-for-wales-revealed>.



Yn seiliedig ar ffigurau personau cyfartalog fesul aelwyd yng Nghymru, mae hyn yn golygu nad oes gan tua 35,100 o bobl fynediad at fand eang yn y cartref.<sup>21</sup>

Mae cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu 11,000 o ddyfeisiadau MiFi i helpu dysgwyr i fynd ar-lein yn cael ei groesawu.<sup>22</sup> Ond, mae angen cymorth parhaus fel y mae arolwg 'Plant yng Nghymru' yn ei bwysleisio, trwy ddangos bod 40% o deuluoedd incwm isel dal heb o leiaf un adnodd hanfodol i gefnogi anghenion dysgu eu plant o'r cartref.<sup>23</sup>

Mae sawl ardal sydd yn dioddef cysylltedd gwael wedi eu lleoli yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae'r rhain yn aml yn ardaloedd lle mae crynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i ddysgwyr yn yr ardaloedd hyn sydd yn wynebu risg o ynysu digidol a ieithyddol.

### Cymhwysedd digidol a hyfforddiant

Mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng cymhwysedd digidol at ddefnydd hamdden, a chymhwysedd digidol ar gyfer defnyddio systemau a rhaglenni i gwblhau gwaith. Mae 89% o'r rheiny sydd yn 16+ oed yng Nghymru a 98% o'r rheiny sydd yn 16-49 oed yn defnyddio'r rhyngwrwyd.<sup>24</sup> Fodd bynnag, dangosodd arolwg gan Lywodraeth Cymru mai dim ond 43% o boblogaeth Cymru oedd wedi defnyddio gweithredoedd sgwrsio ar fideo cyn y pandemig<sup>25</sup>. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae hyn yn hanfodol i ddysgu digidol ac mae'n dangos y materion cymhwysedd digidol y mae dysgwyr yn eu hwynebu. Ymddengys bod teimlad o dybiaeth o ran gwybodaeth dysgwyr, er gwaethaf diffyg hyfforddiant ffurfiol.

Yn ogystal, mae'n hanfodol darparu hyfforddiant ar systemau sydd yn cael eu defnyddio gan SABau er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu dysgu. Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd annog dysgwyr i gynyddu galluogrwydd dyfeisiadau. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o nodweddion fel chwyddo maint ffont a defnyddio gwasanaethau prawffdarllen.

Mae cymhwysedd digidol a hyfforddiant hefyd yn fater y mae staff addysgu mewn SABau yn ei wynebu. Gan fod meysydd llafur a strwythur cyrsiau wedi aros yr un peth, mae llawer o faterion yn ymwneud â chynllunio gwersi a sicrhau bod digon o hyder gan staff i gyflwyno cynnwys mewn ffordd

---

<sup>21</sup> Stats Cymru, *Maint aelwydydd (unigolion) ar gyfartaledd yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn* [Defnyddiwyd 15/06/2020], <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Households/Estimates/averagehouseholdsize-by-localauthority-year>.

<sup>22</sup> Llywodraeth Cymru, '50 o ddysgwyr yr eiliad yn mewngofnodi i ddysgu ar-lein a ffyrdd eraill sy'n dangos sut mae Cymru yn arwain y ffordd mewn gwasanaethau digidol i gefnogi dysgu o bell', *datganiad i'r wasg* [Defnyddiwyd 19/01/2021], <https://gov.wales/50-online-learning-logins-second-and-other-ways-show-how-wales-leading-way-digital-services-support>.

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2021-22 Diogelu, Adeiladu, Newid*, (2020), tud.56, <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-12/2021-2022-draft-budget-narrative.pdf>.

<sup>24</sup> Llywodraeth Cymru, *Bwletin Ystadegol: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 Defnydd o'r rhyngwrwyd a sgiliau digidol*, <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/internet-use-and-digital-skills-national-survey-wales-april-2018-march-2019-207.pdf>.

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, *Bwletin Ystadegol: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Defnydd o'r rhyngwrwyd a sgiliau digidol 2018-19*, <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/internet-use-and-digital-skills-national-survey-wales-april-2018-march-2019-207.pdf>.

wahanol. Nododd arolwg diweddar ar draws y DU nad oedd 49% o'r staff addysgu yn hyderus y byddent yn gallu cyflwyno'r ansawdd addysgu yr oeddent yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain.<sup>26</sup>

## Amgylchedd dysgu

Hyd yn oed pan mae gan ddysgwyr sgiliau cymwys a mynediad at ddarpariaeth, i lawer mae problemau hawl digidol o ran gofod dysgu o hyd. Gyda'r posibilrwydd o deulu, cyd-letywyr, neu bartneriaid hefyd yn gweithio gartref, mae gofod ac amgylchedd dysgu digonol yn hanfodol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi nod o 30% o'r gweithlu yn gweithio o bell yn y dyfodol er mwyn cael cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith<sup>27</sup>. Yn hyn o beth, gallai aelodau eraill o'r cartref ddefnyddio gofod dysgu sydd yn golygu nad oes gan ddysgwyr ardal ddigonol ar gyfer astudio.

I atal y materion hyn, mae'n hanfodol defnyddio a hyrwyddo manau cymunedol fel hybiau, canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd cyhoeddus cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â rheoliadau COVID-19. Mae hefyd yn bwysig cofio bod gan ddysgwyr arddulliau dysgu gwahanol ac yn aml bod angen lefelau uwch o ddysgu wyneb yn wyneb ar gyrsiau ymarferol, mewn amgylchedd gweithdy. Mae'r dull hwn, felly, yn parhau yn agwedd bwysig ar addysgu a dysgu ac mae'n hanfodol ar gyfer llawer o gyrsiau. Mae'n rhaid i gymorth barhau i gael ei ddarparu ar gyfer SABau er mwyn sicrhau bod yr amodau ar gyfer y math hyn o ddarpariaeth wedi eu sefydlu ac yn ddiogel i bawb sydd yn gysylltiedig.

## Iechyd a llesiant

Mae cyflwyno ar-lein yn cynnwys heriau a buddion o ran llesiant. Mae SABau wedi nodi buddion defnyddio technoleg i annog cymhwysedd digidol a defnyddio'r rhyngwrwyd i gysylltu â ffrindiau a theulu.

Fodd bynnag, mae pryderon llesiant hefyd yn ymwneud â dysgu digidol. Mae colegau wedi nodi bod blinder digidol yn broblem wirioneddol ymysg dysgwyr, ac y dylai dysgu digidol hefyd gynnwys dulliau dysgu anghydamserol ("dal i fyny" neu "ar alw"). Gall y math yma o ddysgu fod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl fel gofawyr fydd yn elwa ar gyfleoedd o'r fath. Dylid ystyried 'blinder' ymysg dysgwyr mewn cyd-destun ehangach gydag ymchwil gan Brifysgol South Bank Llundain yn 2020 yn dangos bod gweithio o bell yn gyffredinol yn arwain at fwy o flinder neu 'flinder Zoom' i gyflogeion a mwy o angen am fwy o amser adfer o'i gymharu â gwaith ar y safle mewn swyddfa. Yn yr un modd, mae cyfathrebu trwy alwadau fideo yn fwy blinedig i ymdrin â nhw na mathau eraill o gyfathrebu digidol, fel negeseuon ebost, negeseuon testun, neu sgysiau, gan fod galwadau fideo yn gofyn am lefelau uwch o hunanreolaeth a rheoleiddio emosiwn.<sup>28</sup>

<sup>26</sup> JISC, *Shaping the digital future of FE and skills* (2020), tud.13,

<https://www.jisc.ac.uk/sites/default/files/shaping-the-digital-future-of-fe-and-skills-report.pdf>.

<sup>27</sup> Llywodraeth Cymru, *Datganiad i'r Wasg: Anelu at gael 30% o weithlu Cymru i weithio o bell* (13/09/2020),

<https://gov.wales/aim-30-welsh-workforce-work-remotely>.

<sup>28</sup> Gweler 'Zoom fatigue is a thing', *Personnel Today* (Tachwedd 2020),

<https://www.personneltoday.com/hr/zoom-fatigue-is-a-thing-study-shows> .

Mae'r mater o ddewis o iaith hefyd yn bwysig i lesiant. Dylai gwasanaethau llesiant fod ar gael yn Gymraeg i sicrhau bod dysgwyr y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.

### Cyflwyno cyllideb tair blynedd

Ar hyn o bryd, caiff addysg bellach ei hariannu ar fodel dyrannu blynyddol yn seiliedig ar luosi'r 'gyfradd ddychwelyd gyfartalog mewn ysgolion' gan y gwerth ariannu cyfartalog fesul dysgwr ar gyfer pob awdurdod lleol. Caiff y llinell sylfaen hon wedyn ei hategu gan daliadau chwyddo a chyllid prosiect anghyson.<sup>29</sup> Nid yw'r fformiwla ariannu hon yn caniatáu i golegau gynllunio'n effeithlon, ac oherwydd demograffeg leol newidiol, mae'r sector wedi dioddef tanfuddsoddi yn y blynyddoedd diweddar. Felly, dylai Llywodraeth nesaf Cymru alluogi addysg bellach i symud tuag at fodel ariannu dangosol tair blynedd.<sup>30</sup>

Byddai model ariannu tair blynedd yn helpu SABau i gynllunio a chyllidebu ymlaen llaw. Er eu bod yn rhannu nodau cyffredin, mae SABau yn endidau unigol â ffrydiau incwm masnachol unigryw a thimau staff amrywiol. Yn ogystal, fel yr amlygwyd gan yr ymateb i COVID-19, mae angen i SABau allu addasu, ac weithiau mae angen iddynt fod yn adweithiol yn ariannol.

Trwy symud i fodel dyrannu tair blynedd, byddai SABau yn gallu gwneud cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau yn well, ac adweithio i amgylcheddau newidiol. Yn olaf, byddai'r newid hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i wella hyder y sector.

---

<sup>29</sup> Joseph Champion, *A quick guide to post-16 education funding*, (2018), <https://senedd.wales/research%20documents/18-028/18-028-web-english.pdf>, Tud.2.

<sup>30</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, *Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach* (2017), [https://www.audit.wales/sites/default/files/FE-finances-cym-2017\\_7.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/FE-finances-cym-2017_7.pdf).

Y cyfarwyddyd hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o bump yn cwmpasu'r themâu a nodwyd yn *Llwyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes ar gyfer Cymru*.



Ffôn

02920 522 500

Colegau Cymru

U7 Cae Gwyrdd  
Greenmeadow Springs  
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

E-bost

[helo@colegaucymru.ac.uk](mailto:helo@colegaucymru.ac.uk)

Gwefan

[www.colegau.cymru](http://www.colegau.cymru)